Cwmni

Rhifyn 172 Pris 80c Mai 2015

Rhagor o luniau'r Eisteddfod y tu mewn.....

Cwmni

Swyddogion

Cadeirydd: Robert Dutt
Lowri@mentercaerffili.org

Ysgrifennydd: Marian Fairclough
faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas
e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones
benamary2000@yahoo.co.uk
02920 862428

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Digwyddiadur: Lowri Jones

Ieuenctid:
Bethan Mair Jones a Morgan Roberts

Tanysgrifio:
Marian Fairclough a Jan Penney

Dyluniwr: Gareth Williams
bocspostgap@btinternet.com

Argraffwyr: Tower Print (Caerffili)

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

Cymorth Canser Macmillan,
Llawr 1af,
1 Ffordd Yr Hen Gae,
Parc Bocam, Pencoed,
Pen-y-bont CF35 5LJ Ebrill 22015

Annwyl Syr / Madam

Rwy'n ysgrifennu i ofyn i'ch darllenwyr i gael Noson i Mewn er budd Macmillan y mis Mai hwn.

Y cyfan yw **Noson i Mewn** Macmillan yw cyfle i gael ffrindiau draw i sgwrsio, chwerthin a chael rhywbeth i'w fwyta ac i'w yfed. Does dim angen dod o hyd i dacsi am 2 y bore a does dim ciw wrth y bar – yn lle hynny mae Macmillan eisiau ichi fwynhau amser da gyda'ch hoff bobl.

Y llynedd cododd Noson i Mewn dros £2m i Macmillan.

Mae Noson i Mewn bellach yn ei thrydedd flwyddyn. Mae'n ffordd hwyliog, ddidrafferth ichi helpu i godi ar-ian i Macmillan ac i sicrhau nad oes neb yn wynebu can-ser ar ei ben ei hun.

Mae Macmillan eisiau i bobl ledled Cymru gael Noson i Mewn gyda ffrindiau'r mis Mai hwn i'n helpu i roi cy-morth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser.

Mae'n noson hawdd ei threfnu a'r peth gorau yw hyn, cewch chi amser da gyda ffrindiau a chefnogi Macmillan ar yr un pryd. Byddwn ni hyd yn oed yn gwneud yn siŵr y cewch chi git Noson i Mewn i roi dechrau gwych i'r noson.

Mae miliwn o resymau dros gael Noson i Mewn y mis Mai hwn. I wneud gwahaniaeth, cofrestrwch eich diddor-deb ar http://nightin.org.uk arhoswch am eich cit Noson i Mewn am ddim a gofynnwch i'ch ffrindiau gyfrannu beth bynnag y gallan nhw ei fforddio i'ch Noson i Mewn.

I gael gwybodaeth, neu gymorth gan Macmillan, ffoniwch ni'n rhad ac am ddim ar 0808 808 00 00 (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–8pm) neu ewch i macmillan.org.uk.

Diolch a chofion gorau,
Susan Morris,
Rheolwr Cyffredinol Macmillan
01656 867 960

Cyfres newydd S4C yn trafod profiadau plant a phobl ifanc

Mae S4C wedi lansio **Llond Ceg** - cyfres newydd i blant a phobl ifanc sydd yn trafod materion, profiadau a phroblemau sy'n wynebu plant a phobl ifanc mewn modd agored, gonest, cytbwys a sensitif.

Cafodd pennod o'r gyfres ei dangos yn gyhoeddus am y tro cyntaf yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Caerffili pan ymwelodd un o gyflwynwyr y gyfres Aled Haydn Jones â'r ysgol.

Mae nifer o ddisgyblion yr ysgol honno, ynghyd â disgyblion mewn amryw ysgolion ledled Cymru, wedi cymryd rhan mewn trafodaethau yn y gyfres am bynciau fel bwlio, teulu, rhyw, hunanddelwedd, gwaith cartref ac ysgariad.

Meddai Sioned Wyn Roberts, Comisiynydd Cynnwys Plant S4C, "Mae amryw o'r pynciau yn y gyfres **Llond Ceg** yn rai sy'n anodd, ac mae wedi bod yn agoriad llygad i weld pobl ifanc yn trafod pethau sensitif fel iechyd meddwl a'r glasoed mewn ffordd mor agored a hyderus. Hoffwn ddiolch i'r plant sydd wedi cymryd rhan am fod mor onest am bethau sy'n eu heffeithio nhw.

"Uchelgais Aled, y cyflwynydd, a chriw cynhyrchu Green Bay Media oedd taclo rhai o'r pynciau anodd yma, a gyda chymorth arbenigwyr ac elusen NSPCC maen nhw wedi llwyddo i wneud hynny mewn modd sensitif. Rwy'n falch iawn ein bod yn cynnig cyfres flaengar ac uchelgeisiol fel **Llond Ceg** yn amserlen **Stwnsh**."

Bydd y gyfres o wyth rhaglen, a fydd yn cael ei darlledu bob prynhawn yn dechrau pnawn Mercher, 15 Ebrill am 5.30, yn rhan o'r gwasanaeth plant a phobl ifanc, **Stwnsh**. Mae'n gyfres sydd wedi ei chreu ar gyfer gwylwyr rhwng 8 a 14 oed, ac fe fydd neges wybodaeth cyn y rhaglen yn egluro bod y cynnwys yn trafod pynciau sensitif.

Mae gwasanaeth ChildLine, rhan o NSPCC Cymru yn cynnig cymorth cyfrinachol ar y ffôn, e-bost a sgwrs ar-lein ar ChildLine.org ac ar 0800 1111 yn Gymraeg a Saesneg ac mae croeso i blant a phobl ifanc gysylltu i drafod unrhyw faterion sydd yn codi yn ystod y rhaglen. Mae ap arbennig **Llond Ceg** hefyd wedi cael ei lansio sydd yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chysylltiadau defnyddiol i blant a phobl ifanc.

Mae'r cwmni cynhyrchu Green Bay Media wedi ymgynghori'n ofalus gyda sefydliadau addysgol a NSPCC Cymru wrth baratoi'r gyfres ac roedd cynghorydd ChildLine yn bresennol yn ystod ffilmio'r sesiynau trafod holi ac ateb. Mae doctoriaid hefyd yn rhoi cyngor yn y rhaglen ac mae'r seicotherapydd plant Aaron Balick, sydd eisoes yn gweithio ag Aled Haydn Jones ar raglen The Surgery ar BBC Radio 1, wedi bod yn rhan o'r broses.

Yn ogystal ag Aled Haydn Jones, sy'n wreiddiol o Aberystwyth, fe fydd DJ Capital FM a'r cyflwynydd teledu Geraint Hardy a'r gantores o Ferthyr Tudful Kizzy Crawford hefyd yn cyflwyno **Llond Ceg**. Bydd nifer o wynebau adnabyddus, fel Rhys Ifans, Richard Elis, Tara Bethan, Anni Llŷn ymysg eraill yn sôn am y profiadau y cawson nhw wrth aeddfedu.

Cystadleuwyr BUDDUGOLCDT Cenedlaethol yr Urdd Caerffili 2015
Rhanbarth Gwent

Cystadleuaeth: 5 Gwaith Lluniadu 2D Bl. 5 a 6
Brooke Cavan Ysgol Gynradd Rhisga, Cylch **2** Cwm Rhymni,
14 Gwaith Creadigol 3D Bl. 2 (Unigol)3 Jack Gleeson Ysgol Panteg, Cylch Llanofer,
21 Serameg / Crochenwaith Bl. 2 ac iau
3 Nathaniel Webb Ysgol Panteg, Cylch Llanofer,
22 Serameg / Crochenwaith Bl. 3 a 4, 3 Ellis Harris Ysgol Panteg, Cylch Llanofer,
28 Serameg / Crochenwaith Bl. 7,8 a 9 (Gwaith Gr
2 Grwp Thomas Ysgol Lewis Pengam, Cylch Cwm Rhymni,
30 Gwaith Lluniadu 2D Bl. 3 - 6 A. A.(C)
2 Jack Bourne Ysgol Gynradd Gaer, Cylch Llanofer.
49 Gwaith Creadigol 2D Bl. 7- 9 A. A (C) Grŵp
2 Laura a Katie Ysgol Uwchradd Gatholig St Alban, Cylch Llanofer,
53 Gwaith Creadigol 3D Bl. 7, 8 a 9 A. A (C)2 Tomos Ebo Ysgol Gwynllyw, Cylch Llanofer.
67 Argraffu Bl. 2 ac iau
1 Meghan Johnson Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed, Cylch Cwm Rhymni.
3 Jac Davies Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed, Cylch Cwm Rhymni.
72 Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 3 a 4
2 Menna Roberts Ysgol Gymraeg Cwmbran, Cylch Llanofer.
74 Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 7,8 a 9 1 Mali Edwards Ysgol Gwynllyw, Cylch Llanofer.
75 Ffotograffeg/Graffeg Cyfrifiadurol Bl.6 1 Jasmine Cox Ysgol Trelyn, Cwm Rhymni.
77 Creu Gwefan Bl. 6 ac iau (Unigol neu Grŵp 1 Ysgol Y Lawnt, Cylch Cwm Rhymni.
78 Creu Gwefan Blynyddoedd 7, 8 a 9 (Unigol neu Grŵp1 Ysgol Y Coed Duon, Rhymni.
84 Dyluniad 2D Bl 7-9 1 Esyllt Williams Ysgol Gwynllyw, Cylch Llanofer.
85 Pyped Bl. 2 ac iau
2 Rhys Padfield Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Cylch Llanofer.
3 Agnes Rees-Lever Ysgol Gymraeg Y Castell, Cylch Cwm Rhymni.
91 Mwgwd neu Byped Bl 7,8 a 9 2 Esyllt Williams Ysgol Gwynllyw, Cylch Llanofer.
94 Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 5 a 6
3 Madison Morgan Ysgol Gymraeg Ifor Hael, Cylch Llanofer.
97 Gwaith Creadigiol 2D Tecstilau Bl. 3 a 4
3 Georgia Williams Ysgol Y Lawnt, Cylch Cwm Rhymni.
110 Gwau/Crosio Bl. 7, 8 a 9 2 Morganna Davies Ysgol Gwynllyw, Cylch Llanofer.
111 Gwehyddu Bl. 2 ac iau Megan Simpson Ysgol Penalltau, Cylch **1** Cwm Rhymni.
122 Print Monocrom Bl. 3 a 4 2 Jasmine Cox Ysgol Trelyn, Cylch Cwm Rhymni.
126 Print Lliw Bl. 3 a 4
2 Thomas Davies-Cren Ysgol Gymraeg Y Ffin, Cylch Llanofer.
132 Cyfres o Brintiau Monocrom Bl. 7, 8 a 9
2 Sophie Jones Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Cylch Cwm Rhymni.
135 Cyfres o brintiau Lliw Bl. 5 a 6 2 Beca Evans Lugg Ysgol y Castell, Cylch Rhymni.
136 Cyfres o Brintiau Lliw Bl. 7, 8, a 9
1 Eleanor Hamer Ysgol Gyfun Y Coed Duon, Cylch Cwm Rhymni.
39 Gemwaith Bl. 2 ac iau 1 Taliesin Lewis Ysgol Gymraeg Cwmbran, Cylch Llanofer.
141 Gemwaith Bl. 5 a 6 3 Brady McCann Ysgol Gynradd Pengam, Cylch Cwm Rhymni.
Cystadleuaeth: 142 Gemwaith Bl. 7, 8 a 9
2 Emily Thomas Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Cylch Cwm Rhymni.
146 Dylunio a Thechnoleg Bl7, 8 a 9 2 Megan Vest Ysgol Gyfun Cwm Rhymni,
147 Dylunio a Thechnoleg Bl. 2 ac iau Grŵp 2 Grwp Bl 2 Ysgol Panteg, Cylch Llanofer.
148 Dylunio a Thechnoleg Bl. 3 a 4 Grŵp 2 Grwp Bridgette Ysgol Panteg, Cylch Llanofer.
150 Creu Artefact Bl 2 ac iau Gwaith Grŵp
3 Grwp Evelyn Ysgol Gynradd Cwm Glas, Cylch Cwm Rhymni.
152 Creu Artefact Bl 3 a 4 (Grŵp)2 Grwp Imogen Ysgol Gymraeg Ifor Hael, Cylch Llanofer.
156 Creu Arteffact Bl. 10 ac 113 Jack Harvey Ysgol Lewis Pengam, Cylch Cwm Rhymni.

Ydych chi'n cofio?

015
Eisteddfod yr Urdd
2015

YEAR 7

Eisteddfod yr Urdd
25-30 Mai 2015
Urdd National Eisteddfod
Urdd
urdd.org/eisteddfod
0845 257 1639
YMA
HERE

"Y Dyn Na Fu Erioed"

Roedd un o arwyr yr Ail Ryfel Byd wedi'i eni ym mhentref Aberbargoed. Ond yr hyn sydd yn rhyfedd am Glyndwr Michael yw iddo farw cyn cyflawni ei wrhydri!
Yn wir, byddai'n agosach at y gwir dweud mai corff Glyndwr a chwaraeodd rhan allweddol yn un o ymgyrchoedd mwyaf enwog y Rhyfel.



Er hynny, penderfynwyd gosod plac i'w gofio ar glwydi coffa'r pentref y'i magwyd. A hynny erbyn Sul Coffa 1997 am i'w enw ddod i'r amlwg y flwyddyn honno pan gyhoeddwyd dogfenni, a fu'n gyfrinachol dan ddeddfau cyfrinachedd y llywodraeth cyn hynny.

Pwy, felly, oedd 'Y Dyn Na Fu'?

Yn 1943 lansiwyd *Operation Mincemeat,* sef ymgyrch y Cynghreiriaid i lanio ar Ynys Sicily. Ond er mwyn gwneud hynny'n llwyddiannus roedd angen plannu *decoy* fel bod y gelyn yn cadw'n glir o ardal y glaniad. Y cynllun, felly, oedd gwneud yn siŵr bod yr Almaenwyr yn dod o hyd i bapurau a fyddai'n eu camarwain. Gwnaed hyn drwy greu milwr ffug. A beth oedd yn well na chorff truan marw heb neb i alaru ar ei ôl?

Ganed Glyndwr Michael yn Aberbargoed ar Ionawr 4ydd, 1909 yn fab i Thomas Michael a Sarah Ann Chadwick a bu farw yn Llundain tua'r 28ain o Ionawr 1943 dan amgylchiadau amheus. Nid oes llawer o wybodaeth ar gael am sut y daeth ei fywyd i ddiwedd mor drychinebus ond ceir llawer mwy o fanylion am y modd y defnyddiwyd ei gorff wedi hynny.

Dewiswyd ei gorff ar gyfer *Operation Mincemeat*. Fe'i gwisgwyd mewn lifrau milwrol a'i enwi'n Uwchgapten William Martin y Môr-filwyr Brenhinol (*Major*, *Royal Marines).* Wedi ei fedyddio felly, gosodwyd cês ynghlwm wrth y corff gyda'r math o glo a chadwyn a ddefnyddid gan negeseuwyr banciau'r cyfnod. Ac yn y cês roedd nifer o ddogfenni swyddogol yr olwg yn rhoi manylion am laniad y Cynghreiriau – ond mewn man arall!

Cadwyd y corff mewn iâ a'i drosglwyddo i Gibraltar liw nos gan Ewen Montague, uwch swyddog yn y Llynges *(Naval Intelligence)* a Charles Cholmondeley o MI5, y ddau oedd yn gyfrifol am *Operation Mincemeat.* Rhoddwyd y corff yn *HMS Seraph* yn Holy Loch yn yr Alban yna'i daflu i'r môr ger arfordir Sbaen. Gweler y map sy'n dangos mai yn agos i dref Huelva y gwnaed hyn yn oriau mân Ebrill 30an 1943.

Mae rhai wedi hawlio y cafodd corff Michael ei ddefnyddio yn lle corff "mwy ffres" morwr a laddwyd mewn ffrwydrad ar fwrdd y llong awyrennau *HMS Dasher* ar Fawrth 27ain. Os felly, beth wnaeth Ewen Montagu, a Charles Cholmondeley â chorff Michael? Ai dyma pam y gwrthododd Ewen Montagu enwi Glyndwr Michael yn ystod ei oes?

Fel canlyniad i'r fenter ddyfeisgar yma trosglwyddodd y Natsïaid filoedd o filwyr i ffwrdd oddi wrth yr ardal darged. Ac nid yn unig y bu'r glaniad yn Sicily yn fwy llwyddiannus ond, diolch i gorff y dyn o Aberbargoed, arbedwyd nifer sylweddol o fywydau. I gofio stori'r gŵr hwn, hefyd, gwnaed ffilm '*The Man Who Never Was'*. Disgrifiwyd y fenter gan haneswyr militaraidd fel, *"the most successful strategic deception in the history of warfare"*

Ar Drywydd Stori”



Bydd hunangofiant Gwyn Griffiths, Maesycoed, Pontypridd, yn y siopau llyfrau yn ystod y dyddiau nesaf, os nad yw yno’n barod. Brodor o ardal Tregaron yw Gwyn ond mae e a Gwen wedi byw yn ardal Tonteg a Phontypridd ers dros 45 mlynedd. Yn wir, mae’n honni cysylltiad hwy na hynny gyda’r ardal gan iddo fod ar ymarfer dysgu yn Ysgol Pontsionnorton yn 1959 pan oedd yng Ngholeg Hyfforddi Dinas Caerdydd.

Bu’n gweithio i’r Urdd yn Sir Benfro ac Aberystwyth ac i’r *Cymro* yng Nghroesoswallt cyn dod i Adran Hysbysrwydd BBC Cymru yng Nghaerdydd yn 1969, ac yn bennaeth yr adran maes o law. Wedi ymadael â staff BBC Cymru bu’n aelod o’r tîm sefydlodd wefan Gymraeg y Gorfforaeth a elwid, bryd hynny yn *BBC Cymru’r Byd*.

“Roedd 1969 yn amser da i ddod i Bontypridd oherwydd fe ddechreuodd trefniadau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pontypridd, 1973, yn fuan wedyn a bu’n gyfle i ddod i adnabod trawsdoriad diddorol o bobol yr ardal,” meddai.

Rhoddodd hynny gychwyn ar amryw o weithgareddau, Eisteddfod Godre’r Garth, sefydlu Côr Godre’r Garth, ethol nifer o gynghorwyr y Blaid - Gwen yn eu plith - i Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdre. Bu Gwen wedi hynny yn aelod o Gyngor Tref Pontypridd a Chyngor Bwrdeistref Taf-Elai.

Mae’n sôn am ei gysylltiad â Chapel y Tabernacl, Efail Isaf, hefyd ac un stori ddifyr yw hanes ei gyfrol gyntaf, *Wês Wês*, cerddi a storïau yn nhafodiaith Sir Benfro gyhoeddwyd yn 1976, wedi ei chyd-olygu gyda John Phillips (Llanboidy a Thon-teg). Rhywbeth ddechreuodd fel tipyn o hwyl, mynd ymlaen i fod yn gyfres a bellach yn cael ei chymryd gymaint o ddifri nes mynd yn destun ymchwil Doethuriaeth!

Bu’n llenydda’n ddiwyd yn ystod ei oes. Sgrifennodd ddwy gyfrol am Lydaw, *Crwydro Llydaw* a *Llydaw – ei llên a’i llwybrau*. A’r ddwy gyfrol am y gwerthwr winwns o Lydaw, *Y Shonis Olaf* a *Sioni Winwns* – dwy gyfrol a gyhoeddwyd yn Saesneg a’r olaf yn Ffrangeg, hefyd. Ar sail y cyfrolau am y Sioni Winwns gwahoddwyd ef gan Gyngor Tref Roscoff i sefydlu amgueddfa i’r Sionis – amgueddfa a agorwyd yn 1995.

Yn dilyn hynny cafodd winwns Roscoff statws AOC (Appellation d’Origine Contrôlée) a ddyfernir gan Lywodraeth Ffrainc i gynnyrch o ansawdd arbennig sydd hefyd a nodweddion hanesyddol o ddiddordeb. Gwnaed Gwyn yn gymrawd o’r gymdeithas sy’n gysylltiedig â diwydiant winwns ardal Roscoff ddwy flynedd yn ôl.

Cyd-olygodd gyfrol o ddramâu o’r Llydaweg a chyfrol gyda chyfieithiadau Saesneg yn cyflwyno llenyddiaeth Llydaw, *The Turn of the Ermine*, sef y gyntaf a gyhoeddwyd gan Francis Boutle, Llundain, mewn cyfres yn cyflwyno llenyddiaeth ieithoedd llai eu defnydd i ddarllenwyr Saesneg.

Ymhlith ei gyfrolau eraill mae *Gwlad Fy Nhadau*, sy'n rhoi hanes teulu Evan James, awdur geiriau *Hen Wlad Fy Nhadau*, a aned yng Nghaerffili ac a fu'n byw wedyn yn Argoed ac Aberbargoed cyn ymsefydlu ym Mhontypridd. Yno y cyfansoddodd Evan a'i fab James James ein hanthem genedlaethol. Cyfrol arall a olygwyd gan Gwyn yw *Cerddi Evan James*, cyfrol o farddoniaeth Evan James, bron y cyfan yn gerddi na chawsant eu cyhoeddi o'r blaen.

Ei gyfrolau diweddaraf oedd ei ddau gofiant – y naill yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg – i'r heddychwr, gwladgarwr a'r gwleidydd o Dregaron, Henry Richard. Cafodd y gyfrol Saesneg gryn sylw tu hwnt i Gymru, yn arbennig gan y mudiad heddwch yn Ewrop a gogledd America.

Cyhoeddir *Gwyn Griffiths - Ar Drywydd Stori* - gan Y Lolfa, pris £9.95 a chynhaliwyd y lansiad cyntaf yn Y Fedwen Lyfrau, Merthyr Tudful, ddydd Sadwrn diwethaf (Mai 2). Bydd yn arwyddo copïau yn stondin Siop y Bont (Ann a

Llythyr gan un o'r darllenwyr.

Rydym yn dwli cael ymateb i'n erthyglau gan ein darllenwyr. Dyma ymateb Sian Griffiths i'r gerdd, o gasgliad Moyra Davies, a gyhoeddwyd mewn rhifyn blaenorol.

Helo
Roeddwn wedi meddwl ysgrifennu hwn wythnos ddiwethaf ond mae bywyd yn brysur!!!!

Canwyd Gwerin y Drws Agored am y tro cyntaf yn noson werin Eisteddfod Cwm Rhymni 1990, ar y nos Wener. Fe wnaeth Emyr Edwards ysgrifennu rhaglen nodwedd o'r un teitl a hynny ar hanes y cwm. Roedd gen i sgript OND fe roddais i fenthyg y sgript i rywun a ches i hi byth nol!!! Falle byddai'n dda gofyn i Emyr Edwards amdano -byddai'r cwmni drama a diddordeb rwy'n siŵr!!

Artistiaid y noson ganodd y gân ar ddiwedd y noson oedd: Tannau Tridwr, Rhianedd Cwm Rhymni,Merched y Garth, Côr Meibion Islwyn (rwy'n credu), Disgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Hwyl,

Sian (Griffiths)

Hen Benillion

Yn byw yn nhref Caerffili
Mae merch o'r enw Mari,
A dan fy mron erys clwyf
Nes caffwyf ei phriodi.

Â chwlff o gaws Caerffili
Rwy'n siŵr fai'n faethlon iti,
Ac os y bwyti rhain i gyd
Fy fyddi hyd at hollti.

Mae Afon Rhymni dirion
Yn llifo, llifo'n gyson.
Er gweled llawer tro ar fyd
Yr un o hyd yw'r afon.

Mae brân a chi a chawci
I'w cael yn nhref Caerffili,
A thŵr fu'n syndod llawer o's
Mor gam â cho's Wil Dwmi

Llanbradach

Ni welais neb oedd harddach
Na Siani fach Llanbradach,
Ond gwn na welais, er fy oed
Un ferch erioed oedd ffolach.

Mae sôn drwy Gymru bellach
Am helgwn chwim Llanbradach,
Nid oes o'u bath am ddaear foch
Y cadno coch a'r geinach.

Mae hanes Siân Cwmbargod
Yn llawn o bethau hynod,
Bu fyw nes oedd yn gant a saith
A phedair gwaith yn briod.

Bu iddi ddeuddeg bachgen
A phedair merch benfelen,
Ond gwelodd ddodi oll o'i thras
O dan y las dywarchen.

Mae'r bardd Dafydd Islwyn yn adrodd hanes Y Parchedig Gwilym Davies, sefydlydd Neges Dydd Ewyllys Da, a anwyd ym Medlinog sydd ddim yn bell o faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni.

Y Parchedig Gwilym Davies



Ar y 29ain o Ionawr 1955 bu farw Y Parchedig Gwilym Davies yn Aberystwyth. Myfyrdod y 29ain o Ionawr eleni yng Ngair y Dydd oedd, "Crëwr Neges Ewyllys Da Plant Cymru oedd Gwilym Davies a fu farw ar y dyddiad hwn yn 1955. Roedd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr am flynyddoedd cyn ymroi yn llwyr i hyrwyddo heddwch. Bu'n gyfrifol, gydag Arglwydd Llandinam, am sefydlu adran Gymraeg Undeb Cynghrair y Cenhedloedd gyda'i chanolfan yn Aberystwyth. Bu'n gyfarwyddwr o'r cychwyn. Ei gynllun ef hefyd oedd sail cyfansoddiad UNESCO. Ond cofiwn ef yn bennaf am sefydlu'r arferiad o ddarlledu Neges Ewyllys Da plant Cymru i'r holl fyd....."

Yn 1918 eisteddai Gwilym Davies, brodor o Fedlinog, Cwm Bargod Taf, mewn gwersyll YMCA yn Sir Benfro a gwelodd swyddog yn derbyn negeseuon mewn *Morse Code* o Gernyw a'r Iwerddon. Synfyfyriodd oni allai plant Cymru ryw ddiwrnod gyfarch plant y byd trwy'r cyfrwng, yn enw heddwch ac ewyllys da! Mewn Cynhadledd Ieuenctid yn Llandrindod yn 1922 derbyniwyd cynnig Gwilym Davies bod neges o ewyllys da oddi wrth blant Cymru i'w gyrru at blant y byd. Ar doriad gwawr ar yr 28ain o Fehefin 1922 fe yrrwyd y neges o orsaf Leafield, Rhydychen, drwy'r dull *wireless telegraphy* at blant y byd.

Yr unig un i'w chlywed oedd cyfarwyddwr Gorsaf Tŵr Eiffel ym Mharis! Fe ddarlledodd ef y neges o'r orsaf! Ni dderbyniwyd yr un ateb yn 1923 ychwaith. Yn 1924 darlledodd y BBC, a ddechreuodd ddarlledu yng Nghymru ar y 13eg o Chwefror 1923, y neges. Derbyniwyd atebiad o Sweden a Gwlad Pwyl. Yn araf bach datblygodd ymateb i'r neges. Yn 1925 dechreuodd Urdd Gobaith Cymru gefnogi'r neges a'r flwyddyn ddilynol dechrau ei chyhoeddi. Bu Gwilym Davies yn gysylltiedig â hi am ragor na thri deg mlynedd.

Ganwyd Gwilym Davies ar y 24ain o Fawrth 1879 ym Mans Capel Salem y Bedyddwyr, Cwmyfelin, Bedlinog - gosodwyd cofeb ar y tŷ i nodi'r ffaith. Bu'n ddisgybl - athro ym Medlinog. Pan symudodd ei dad, Y Parchedig D.J.Davies, i gyffiniau Llangadog, Sir Gaerfyrddin aeth yn ddisgybl i ysgol ramadeg Llandeilo.

Yn 1895 dechreuodd bregethu. Dilynodd ei dad i'r weinidogaeth, a bu'n gweinidogaethu ym Mroad Haven, Sir Benfro rhwng 1906 a 1908; yng Nghaerfyrddin am y saith mlynedd ddilynol. Roedd yn Y Fenni trwy'r Rhyfel Mawr a blwyddyn wedi iddi dawelu ar faes y gad symudodd i Landrindod. Yn 1922 gadawodd y weinidogaeth ordeiniedig i'w swydd gydag Undeb Cynghrair y Cenhedloedd. Bu farw chwe deg mlynedd yn ôl a gwasgarwyd ei lwch ger Trwyn Larnog, lle y trosglwyddwyd y negeseuau radio cyntaf ar draws y dŵr yn 1897. Addas oedd hyn o gofio ei gysylltiadau â darlledu.

Tudalen y Dysgwyr gan Ann Lewis

Posau'r Plant gan Mary Jones

Allwch chi ddod o hyd i'r NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Ydych chi'n gallu gweld pa DDAU lun sy'n UNION yr un peth?



Atebion

Y ddau lollipop sydd yn UNION yr un faith yw:
Rhif 3 a Rhif 13



Llun y Mis

Anne East yw arlunydd mis Mai. Un o Gaerffili yw hi'n wreiddiol ac mae'n dal i fwy yno. Ar ôl mynychu cyrsiau arholiad ym Medwas daeth hi'n aelod o Grŵp Dydd Gwener. Cyn ymddeol gweithiodd yn yr ardal fel cemegydd. Mae Anne yn arddangos ei gwaith yn gyson. Yn ei hamser hamdden mae hi'n hoffi cerdded ac mae'r llun yn dangos yr olygfa uwchben Talgarth ar un o'i diwrnodau o gerdded mynyddoedd Cymru.